Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2024.

Julie James AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
14 Mehefin 2024

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2024 ('y Rheoliadau') yn diwygio Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ('Rheoliadau 1996') i adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol ddiwygiedig sy'n deillio o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae angen diwygiadau i ddisodli cyfeiriadau mewn deddfwriaeth sy'n cael ei diddymu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 gyda chyfeiriadau at yr adrannau perthnasol o'r Ddeddf honno, ynghyd â chyfeiriadau at Weinidogion Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru/y Cyngor y mae angen eu disodli gyda chyfeiriadau at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn') neu Weinidogion Cymru.

Mae hefyd yn ofynnol gwneud gwaith diwygio i ddileu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sydd wedi'i diddymu'n flaenorol, gan gynnwys cyfeiriadau at Reoliadau cymorth i fyfyrwyr sydd wedi dyddio ac sydd angen eu disodli gan gyfeiriadau at y Rheoliadau cymorth myfyrwyr cyfredol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 30 a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ('Deddf 1996') ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 30, 146(1) a 146(2) o Ddeddf 1996 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru gan adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 30(9) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 wedi'i ddatgymhwyso.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1996 a wnaed yn wreiddiol gan Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a Lloegr ac sydd wedi'u diwygio ers hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr a chan Weinidogion Cymru o ran Cymru, ar wahân, ar sawl achlysur.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2024.

4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Sefydlwyd y Comisiwn gan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (fel y'i cychwynnwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022). Bydd Adran 23 o'r Ddeddf honno, y disgwylir ei chychwyn ar 1 Awst 2024, yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC'). Mae angen gwneud diwygiadau i Reoliadau 1996 o ganlyniad i greu'r Comisiwn, diddymu CCAUC, a'r diwygiadau canlyniadol a wnaed gan Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae angen diwygiadau pellach i Reoliadau 1996 i ddiweddaru hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r diwygiadau i'r offeryn statudol hwn yn dechnegol eu natur ac maent yn digwydd o ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, ac nid ydynt yn cynrychioli unrhyw newidiadau mawr i bolisi. Mae'r dull gweithredu hwn yn unol ag arferion safonol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth ddrafft.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gan fod y Rheoliadau hwn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad yw’r diwygiadau’n newid y polisi (na’i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn gyson â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a wnaed i gyd-fynd â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 adeg ei chyflwyno i'r Senedd, yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn.